OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 1192

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau i Gymhwystra Myfyrwyr) (Cymru) 2019

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 3, yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros"—

(a) ar ôl paragraff (a)(ii) mewnosoder—

"(iia) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol o dan y rheolau mewnfudo;";

(b) ym mharagraff (a)(iv), ar ôl "preifat" mewnosoder "neu deuluol".

(**1**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2018/814 (Cy. 165) ac O.S. 2019/424 (Cy. 98) (o'r diwrnod ymadael ymlaen, fel y diffinnir "exit day" gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, adran 20(1) i (5)).